Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Siarad gyda Fi Cam 2

## Dywedwch wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am ein cynllun newydd ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu plant



Siarad Gyda Fi
Talk With Me

Ionawr 2026

# Sut i ddefnyddio'r llyfryn yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Siarad gyda Fi Cam 2: Cynllun Cyflawni ar gyfer Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (LlIC) 2026-2030.**




Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** llyw.cymru/siaradgydafi

**E-bost:** SiaradGydaFi@llyw.cymru

**Ffôn:** 0300 0604400

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn Hawdd ei Ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys


**Sut i rannu beth rydych chi'n feddwl........................................4**

**Am Siarad gyda Fi..............................................................5**

**Am y cynllun newydd ..........................................................7**

**Ein nodau ar gyfer y cynllun newydd ...................................... 10**

**Cwestiynau eraill ............................................................... 28**

Eich gwybodaeth bersonol.................................................33

Amdanoch chi .....................................................................34

# Sut i rannu beth rydych chi'n feddwl

Rydych chi'n gallu rhannu beth rydych chi'n feddwl mewn gwahanol ffyrdd:



- **Llenwch y llyfryn yma a'i bostio i:**

  Siarad gyda Fi
  Yr Is-adran Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae
  Llywodraeth Cymru
  Parc Busnes Rhyd-y-car, Merthyr Tudful
  CF48 1UZ



- **Llenwch y llyfryn yma a'i e-bostio i:**
  SiaradGydaFi@llyw.cymru




- **Llenwch ein ffurflen ar-lein:**
  Ffurflen ar-lein



Am ragor o wybodaeth anfonwch e-bost i ni yn SiaradGydaFi@llyw.cymru neu ffoniwch ni ar 0300 0604400.

# Am Siarad gyda Fi

Ni ydy **Is-adran Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae** Llywodraeth Cymru.




Mae Siarad gyda Fi yn rhaglen rydyn ni wedi ei dechrau yn 2020.



Mae'n helpu plant rhwng 0 a 5 oed gyda'u lleferydd, iaith a chyfathrebu.

- Mae **lleferydd** yn meddwl sut rydyn ni'n dweud geiriau.
- Mae **iaith** yn meddwl y geiriau rydyn ni'n eu deall a'u defnyddio.
- Mae **cyfathrebu** yn meddwl rhannu syniadau, teimladau ac anghenion gydag eraill.




Mae’r rhaglen yma wedi gweithio’n dda dros y 5 mlynedd diwethaf.



Rydyn ni nawr eisiau cynnwys plant rhwng **5 ac 11 oed**.




Mae’r cynllun newydd yma yn cael ei alw yn **Siarad gyda Fi Cam 2**. Mae’r cynllun ar gyfer 2026 i 2030.



Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi’n feddwl am y cynllun newydd yma.




Darllenwch y llyfryn yma ac atebwch y cwestiynau. Anfonwch eich atebion i ni erbyn **Dydd Iau 30 Ebrill 2026.**

# Am y cynllun newydd



Mae 1 o bob 5 o blant a phobl ifanc yn cael anawsterau gyda lleferydd, iaith a chyfathrebu.



Mae gan fwy nag 1 o bob 10 anghenion hirdymor. Mae'r rhain yn effeithio ar eu dysgu.



Mae tua 3 o bob 10 o'r plant yma yn byw mewn ardaloedd lle mae gan deuluoedd lai o arian a chymorth.



Mae plant yn yr ardaloedd yma yn fwy tebygol o ddatblygu iaith yn fwy araf.



Mae lleferydd, iaith a chyfathrebu yn effeithio ar lawer o rannau eraill o fywyd, fel dysgu ac iechyd meddwl.



Mae cefnogi plant yn rhoi llawer o fanteision  a dydy e ddim yn costio llawer o arian.



Mae'r cynllun newydd yma yn gwneud yn siŵr bod mwy o blant yng Nghymru yn cael y cymorth maen nhw ei angen.



**Cwestiwn 1. Ydych chi'n cytuno bod yr enw Siarad gyda Fi Cam 2 yn iawn?**

Mae'r enw yma i gynnwys gwaith gyda phlant hŷn.

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Dim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Dim yn gwybod neu dim barn

Ysgrifennwch eich meddyliau neu newidiadau rydych chi eisiau eu gwneud i'r enw yma:

# Ein nodau ar gyfer y cynllun newydd

## 1. Dweud wrth fwy o bobl am leferydd, iaith, a chyfathrebu



Rydyn ni eisiau i fwy o deuluoedd ddeall pam mae lleferydd, iaith a chyfathrebu yn bwysig.



Rydyn ni eisiau i deuluoedd wybod lle a sut i gael cefnogaeth.

Fe fyddwn ni'n parhau gyda:



- Rhedeg ein hymgyrch ar gyfer plant 0 i 5 oed. Fe fyddwn ni'n canolbwyntio ar rai meysydd. Er enghraifft, plant mewn gofal.



- Gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru ac eraill i wneud yn siŵr bod y materion yma yn cael eu deall.

Rhai pethau newydd fyddwn ni yn eu gwneud ydy:



- Cynnal ymgyrch i helpu pobl i ddeall datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu mewn plant rhwng 5 ac 11 oed.



- Rhannu gwybodaeth glir gyda staff drwy adnoddau **Cwricwlwm i Gymru**.



- Rhannu cyngor am sgriniau a thechnoleg a sut maen nhw'n effeithio ar gyfathrebu.



**Cwestiwn 2. Ydych chi'n cytuno y bydd ein cynlluniau yn Nod 1 yn helpu babanod a phlant i gael gwell sgiliau cyfathrebu?**

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Dim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Dim yn gwybod neu dim barn

Ysgrifennwch unrhyw sylwadau eraill yma:

# 2. Sylwi ar anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn gynharach



Rydyn ni eisiau i bobl sy'n gweithio gyda phlant sylwi ar anghenion cyn gynted â phosibl.



Fe fydd hyn yn helpu i wneud yn siŵr bod plant yn cael:

- Y gefnogaeth maen nhw ei angen.
- Yn y lle iawn.
- Ar yr adeg iawn.




Rydyn ni eisiau i blant gael eu sgiliau wedi eu harchwilio ar yr adeg iawn gan ddefnyddio'r ffyrdd gorau.

Fe fyddwn ni’n parhau gyda:

- Datblygu ein rhaglen o’r enw Prosiect Pengwin.

Rhai pethau newydd fyddwn ni’n eu gwneud ydy:



- Edrych ar pa mor dda mae ysgolion yn chwilio am anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.



- Gofyn i arbenigwyr edrych ar yr offer mae ysgolion yn eu defnyddio i archwilio sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu plant.



**Cwestiwn 3. Ydych chi'n cytuno y bydd ein cynlluniau yn Nod 2 yn helpu babanod a phlant i gael gwell cefnogaeth?**

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Dim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Dim yn gwybod neu dim barn

Ysgrifennwch unrhyw sylwadau eraill yma:

# 3. Gwneud yn siŵr bod gan staff yr offer a’r gefnogaeth gywir



Rydyn ni eisiau i bobl sy’n gweithio gyda phlant gael gwybodaeth ac offer da.



Mae hyn i helpu plant i ddatblygu eu lleferydd, iaith a chyfathrebu yn dda.

Fe fyddwn ni’n parhau gyda:

- Datblygu Prosiect Pengwin.



- Gwneud yn siŵr bod plant rhwng 0 a 5 oed yn gallu cael y gefnogaeth gywir.

Rhai pethau newydd fyddwn ni'n eu gwneud ydy:



- Edrych ar pa gymorth mae plant rhwng 5 ac 11 oed yn ei gael nawr.



- Darganfod pa gymorth sy'n gweithio orau i blant rhwng 5 ac 11 oed.



**Cwestiwn 4. Ydych chi'n cytuno y bydd ein cynlluniau yn Nod 3 yn gwella'r cymorth mae plant yn ei dderbyn?**

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Dim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Dim yn gwybod neu dim barn

Ysgrifennwch unrhyw sylwadau eraill yma:

# 4. Gwneud yn siŵr bod gan staff yr hyfforddiant cywir



Rydyn ni eisiau i bobl sy'n gweithio gyda phlant gael hyfforddiant sy'n helpu i gefnogi plant a theuluoedd.



Mae hyn yn meddwl y byddan nhw'n cael gwell cefnogaeth gan y rhai sy'n agos atyn nhw.



Rydyn ni eisiau edrych i weld bod hyfforddiant yn gwneud gwahaniaeth go iawn.

Fe fyddwn ni'n parhau gyda:




- Diweddaru'r fframwaith hyfforddi lleferydd, iaith a chyfathrebu blynyddoedd cynnar. Mae'r fframwaith yma yn ddogfen sy'n disgrifio pa hyfforddiant sydd ar gael yng Nghymru.



- Rhannu'r fframwaith hyfforddi ar gyfer plant oedran ysgol.



- Rhoi hyfforddiant i Ymwelwyr Iechyd a'r rhai sy'n cefnogi eu gwaith.



- Gwneud yn siŵr bod mwy o bobl yn gwybod am y wybodaeth a'r gefnogaeth sydd gennym ni.

Rhai pethau newydd fyddwn ni'n eu gwneud ydy:



- Edrych ar ffyrdd o hyfforddi mwy o staff. Er enghraifft, Ymwelwyr Iechyd, Athrawon a Gweithwyr Cymdeithasol.



- Gweithio gydag Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn i wneud hyfforddiant a gwybodaeth sy'n eu cefnogi.



- Gwneud hyfforddiant ar-lein i staff sy'n gweithio gyda phlant rhwng 5 ac 11 oed.



- Dysgu gan wledydd eraill am beth sy'n gweithio'n dda.



**Cwestiwn 5. Ydych chi'n cytuno y bydd ein cynlluniau yn Nod 4 yn helpu staff i sylwi ar, a chefnogi anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu?**

- [ ] Cytuno'n gryf
- [ ] Cytuno
- [ ] Dim yn cytuno nac yn anghytuno
- [ ] Anghytuno
- [ ] Anghytuno'n gryf
- [ ] Dim yn gwybod neu dim barn

Ysgrifennwch unrhyw sylwadau eraill yma:

# 5. Stopio problemau lleferydd, iaith a chyfathrebu rhag datblygu



Rydyn ni eisiau i bob plentyn gael y gefnogaeth maen nhw ei angen, lle bynnag maen nhw'n byw yng Nghymru.



Rydyn ni eisiau cefnogaeth i helpu i stopio problemau rhag datblygu yn nes ymlaen.

Fe fyddwn ni’n parhau gyda:




- Cefnogi hawliau plant.




- Dilyn cyngor am y ffyrdd gorau o weithio.




- Edrych ar, a diweddaru cyngor lleferydd, iaith a chyfathrebu ar gyfer Dechrau’n Deg.



- Edrych ar waith Siarad gyda Fi.



- Cefnogi gwasanaethau i roi cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu ar waith.

Rhai pethau newydd fyddwn ni’n eu gwneud ydy:



- Gweithio’n agosach gyda gwasanaethau iechyd meddwl. Fe fydd hyn yn helpu i wneud yn siŵr bod anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn cael eu deall.



- Gweithio’n agosach gyda gwasanaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol. Fe fydd hyn yn ein helpu i ddeall eu hanghenion hyfforddi.



- Gweithio gyda staff sy’n cefnogi plant gyda darllen ac ysgrifennu. Gwneud yn siŵr eu bod yn deall mwy am leferydd, iaith a chyfathrebu.




- Gweithio’n agosach gyda gwasanaethau cyfiawnder, sy’n helpu pobl gyda’r gyfraith. Fe fydd hyn yn helpu i wneud yn siŵr bod pobl sy’n gweithio mewn gwasanaethau cyfiawnder yn deall lleferydd, iaith a chyfathrebu.




**Cwestiwn 6. Ydych chi'n cytuno y bydd ein cynlluniau yn Nod 5 yn helpu plant i ddatblygu gwell sgiliau cyfathrebu?**

- [ ] Cytuno'n gryf
- [ ] Cytuno
- [ ] Dim yn cytuno nac yn anghytuno
- [ ] Anghytuno
- [ ] Anghytuno'n gryf
- [ ] Dim yn gwybod neu dim barn

Ysgrifennwch unrhyw sylwadau eraill yma:

# Cwestiynau eraill




**Cwestiwn 7. Ydych chi'n meddwl y dylai fod mwy o nodau yn y cynllun?**

- [ ] Ydw
- [ ] Nac ydw
- [ ] Dim yn gwybod neu dim barn

Os ydych chi wedi ateb ydw, ysgrifennwch unrhyw nodau eraill yma:




**Cwestiwn 8. Ydych chi'n meddwl y dylai fod mwy o bethau newydd i ni eu gwneud yn y cynllun**

- [ ] Ydw
- [ ] Nac ydw
- [ ] Dim yn gwybod neu dim barn

Os ydych chi wedi ateb ydw, ysgrifennwch unrhyw bethau eraill i'w gwneud yma:




**Cwestiwn 9. Ydych chi’n meddwl y bydd y cynllun yma yn effeithio ar y defnydd o’r Gymraeg neu os ydy hi’n cael ei thrin yn deg?**

Dywedwch beth rydych chi’n feddwl yma:




**Cwestiwn 10. Sut allai’r cynllun yma gefnogi’r defnydd o’r Gymraeg?**

Ysgrifennwch eich syniadau yma:



**Cwestiwn 11. Ydyn ni'n gallu gwneud newidiadau i'r cynllun i gefnogi hawliau plant yn well?**

Ysgrifennwch eich syniadau yma:




**Cwestiwn 12. Oes gennych chi unrhyw beth arall i'w ddweud wrthyn ni am y cynllun?**

Ysgrifennwch hynny yma:

# Eich gwybodaeth bersonol




Fe fyddwn ni'n dilyn y gyfraith pan fyddwch chi'n anfon eich gwybodaeth bersonol i ni.




Fe fyddwn ni'n ysgrifennu adroddiad am beth mae pobl yn ei ddweud wrthyn ni am y cynllun yma.



Efallai y byddwn ni'n rhannu ymatebion pobl mewn adroddiad. Fyddwn ni ddim yn cynnwys enw neb yn yr adroddiad os nad ydych chi eisiau i ni wneud hynny.



I gael rhagor o wybodaeth am sut rydyn ni'n cadw eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel, anfonwch e-bost at: swyddogdiogeludata@llyw.cymru

# Amdanoch chi




**Eich enw:**




Os ydych chi eisiau i'ch enw gael ei rannu yn yr adroddiad gyda'ch ymateb, ticiwch y blwch yma:



**Sefydliad - os ydych chi'n ateb dros un:**



**E-bost neu rif ffôn:**




**Eich cyfeiriad - os yn ymateb drwy'r post:**




Diolch am ddarllen y llyfryn yma a rhannu beth rydych chi'n feddwl gyda ni. Cofiwch anfon eich atebion i ni erbyn **dydd Iau 30 Ebrill 2026** os gwelwch yn dda.

© Hawlfraint y Goron 2026,

Llywodraeth Cymru,

WG53884,

ISBN digidol 978-1-80633-985-3

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh